

Carl Sargeant AC

Ysgrifennydd y Cabinet dros Gymunedau a Phlant

30 Mehefin 2017

Annwyl Carl

Diogelwch tân mewn tyrau o fflatiau yng Nghymru

Dyma ysgrifennu atoch i roi gwybod i chi ein bod wedi cytuno i gynnal sesiwn undydd ar ddiogelwch tân mewn tyrau o fflatiau yng Nghymru ar 13 Gorffennaf.

Rydym yn gobeithio cymryd tystiolaeth lafar gan lywodraeth leol, cymdeithasau tai, gwasanaethau tân ac achub, *cyrff proffesiynol sy'n cynrychioli arbenigwyr ym meysydd adeiladu, diogelwch tân a thai*, a phreswylwyr. Gan na chafwyd fawr o rybudd, ni fyddwn yn cyhoeddi ymgynghoriad ysgrifenedig ar hyn o bryd. Byddwn yn ystyried y meysydd canlynol:

- Pa ofynion/mesurau diogelwch tân sydd ar waith mewn tyrau o fflatiau yng Nghymru ar hyn o bryd?
- A oes unrhyw fylchau neu wendidau amlwg yn y system bresennol o reoleiddio diogelwch tân mewn tyrau o fflatiau yng Nghymru?
- A yw'r canllawiau i breswylwyr tyrau o fflatiau yng Nghymru, mewn achos o dân, yn briodol?
- Sut y caiff preswylwyr yng Nghymru wybod am ddatblygiadau diweddar, a pha sicrwydd a roddir iddynt ynghylch mesurau diogelwch rhag tân yn eu tyrau? Yn



fwy cyffredinol, i ba raddau y gwrandewir ac yr ymdrinnir â barn preswylwyr am ddiogelwch tân?

Ar ôl i ni gymryd tystiolaeth, bydd gennym farn gliriach am ba waith pellach y byddwn ni am ei wneud, ond rwyf am eich hysbysu y byddwn ni efallai am eich gwahodd chi ac Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Amgylchedd a Materion Gwledig i roi tystiolaeth i'r Pwyllgor yn gynnar yn yr hydref. Rwy'n anfon copi o'r llythyr hwn at Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Amgylchedd a Materion Gwledig er gwybodaeth.

Mae croeso i chi gysylltu â mi os hoffech gael rhagor o wybodaeth am yr ymchwiliad.

Yn gywir



John Griffiths AC
Cadeirydd

cc. Lesley Griffiths AM, Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Amgylchedd a Materion Gwledig

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu Saesneg.

We welcome correspondence in Welsh or English.

